

ECDE7016C
YSGRIFENNU ADOLYGIAD
LLENYDDIAETH
BEIRNIADOL MEWN
ADDYSG

Llawlyfr Modwl 2026-27

Croeso i'r modwl

Croeso cynnes i ECDE7016C *Ysgrifennu Adolygiad Llenyddiaeth Beirniadol mewn Addysg*. Mae'r modwl hwn yn ceisio adeiladu ar y sylfeini a ddatblygwyd o fewn modwl ECDE7002C ac yn datblygu eich sgiliau ymhellach ar lefel 7, gyda ffocws penodol ar yr adolygiad llenyddiaeth fel elfen allweddol o'ch prosiect ymchwil.

Tiwtor y modwl

Caroline Lewis

E-bost: caroline.lewis@uwtsd.ac.uk

Amcanion y Modwl

- Datblygu'r sgiliau beirniadol a dadansoddol lefel uwch sydd eu hangen i adeiladu dadl o fewn adolygiad o lenyddiaeth.
- Gwerthuso'n feirniadol lenyddiaeth bresennol sy'n gysylltiedig ag astudiaeth ymchwil ac adnabod bwlch/bylchau yn y lenyddiaeth hon.
- Llunio adolygiad o lenyddiaeth sydd â dadl, critigoldeb ac eglurder yn ffocysu ar faes ymchwil penodol.

Deilliannau Dysgu'r Modwl

Ar ôl cwblhau'r modwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r myfyriwr allu:

- Arddangos a mynegi dadl glir a chritigoldeb sy'n briodol i ymchwil addysg.
- Gwerthuso'n feirniadol lenyddiaeth o amrywiaeth o ffynonellau gan ddefnyddio sgiliau lefel uwch i ddatblygu dadl, ac adnabod bwlch/bylchau mewn ymchwil i gefnogi pynciau ymchwil penodol.
- Llunio adolygiad o lenyddiaeth yn ymgorffori dadl feirniadol i gefnogi pynciau ymchwil penodol.

Amserlen y sesiynau

Dyddiad	Ffocws
03.10.26 [Ar y campws] 09:30-15:30 IQ305	Cyflwyniad i'r modwl • Amcanion a Deilliannau Dysgu • Gofynion asesu • Dilyniant o ECDE7002C Gweithdy adolygu llenyddiaeth • Gwerthuso'r cwestiwn ymchwil • Mapio'r llenyddiaeth • Nodi dadleuon, tensiynau a bylchau • Lleoli eich astudiaeth o fewn y maes Paratoi ar gyfer y sesiwn hon – Dewch â'ch aseiniad ECDE7002C a'ch adborth – Dewch â'ch cwestiynau ymchwil cyfredol – Dewch â nodyn adfyfyriol byr o'r dasg isod – Darllenwch Bennod 7 o Biggam, J. (2026). <i>Succeeding with your Master's dissertation : a step-by-step handbook</i> (Chweched argraffiad). Open University Press. https://ezproxy.uwtsd.ac.uk/login?url=https://www.vlebooks.com/product/openreader?id=TrinityStD&acclid=8886856&isbn=9780335253661&uid=^u ac ailymweld â'r adran adolygu llenyddiaeth o'ch aseiniad ECDE7002C. Wrth i chi ddarllen, adfyfyriwch ar y canlynol: → I ba raddau y symudodd eich adolygiad llenyddiaeth y tu hwnt i ddisgrifio i fod yn ddadansoddiad? → Pa mor effeithiol wnaethoch chi syntheseiddio syniadau o wahanol ffynonellau? → A wnaeth eich adolygiad nodi themâu allweddol, dadleuon a thensiynau yn y llenyddiaeth? → A wnaethoch chi ddechrau nodi rhesymeg dros eich astudiaeth arfaethedig? → Beth fydddech yn ei wneud yn wahanol nawr?
13.10.26 [Teams] 16:30-17.30	Symud o ddisgrifiad i gritigoldeb • Ysgrifennu beirniadol ar lefel doethurol • Syntheseiddio'r llenyddiaeth • Gweithio gyda gwahanol fathau o lenyddiaeth Paratoi ar gyfer y sesiwn hon • Darllenwch Wallace & Wray (2021) <i>Critical Reading and Writing for Postgraduates: 4^{ydd} argraffiad</i>. Pennod 4. • Dewiswch erthygl ddiweddar mewn cyfnodolyn o'ch maes astudio arfaethedig a'i darllen yn feirniadol. Gan dynnu ar drafodaeth Wallace a Wray o ddarllen ac ysgrifennu beirniadol, nodwch enghreifftiau o'r canlynol: ○ Disgrifiad ○ Dadansoddiad

	○ Beirniadaeth ○ Synthesis ○ Ystyriwch pa ddull sydd fwyaf blaenllaw yn yr erthygl a pha mor effeithiol mae'r awdur yn datblygu dadl feirniadol. ○ Dewch â nodiadau anodedig i'r sesiwn a byddwch yn barod i drafod: ▪ Pa ddull sydd fwyaf blaenllaw yn yr erthygl? ▪ Sut mae'r awdur yn dangos critigoldeb? ▪ Pa agweddau ar yr ysgrifennu allech chi eu mabwysiadu yn eich adolygiad llenyddiaeth eich hun?
Wythnos yn cychwyn 26.10.26 [Tasg gyfeiriedig].	Ymchwilio i'r llenyddiaeth • Yn ystod yr wythnos hon, ymgysylltwch â llyfrgell PCYDDS i gynhyrchu adolygiad llenyddiaeth amlinellol ar gyfer eich astudiaeth. Bydd disgwyl i chi gyflwyno hyn yn y sesiwn seminar ar 17.11.26: • Dewch o hyd i rhwng 10-15 ffynhonnell sy'n berthnasol i'ch astudiaeth • Amlinellwch pam mae'r rhain yn bwysig ar gyfer eich astudiaeth • Beth yw'r themâu/tensiynau/bylchau sy'n dod i'r amlwg? • Sut y gallai eich astudiaeth arfaethedig gyfrannu at fynd i'r afael ag unrhyw fylchau a nodwyd? • Beth fydd eich camau nesaf wrth ddatblygu eich ymchwil ymhellach? • Sut mae eich dealltwriaeth o'r pwnc wedi newid ers ECDE7002C?
03.11.26 [Teams] 16:30-17.30	Gweithio gyda damcaniaethau • Damcaniaethau yn erbyn cysyniadau • Fframweithiau cysyniadol a damcaniaethol. • Sut y gellir defnyddio'r rhain i gefnogi'ch astudiaeth? Paratoi ar gyfer y sesiwn hon Darllenwch Maxwell, J.A. (2013) <i>Qualitative Research Design</i> Pennod 3: Conceptual Framework Ar ôl darllen y bennod: • Nodwch y cysyniadau allweddol sy'n dod i'r amlwg o'ch adolygiad llenyddiaeth. • Nodwch unrhyw ddamcaniaethau, modelau neu fframweithiau sy'n ymddangos yn rheolaidd yn eich maes. • Brasluniwch fframwaith cysyniadol syml ar gyfer eich astudiaeth arfaethedig. • Ysgrifennwch 200-300 o eiriau gan esbonio: ○ Pam mae'r cysyniadau hyn yn bwysig. ○ Sut maent yn berthnasol i'ch cwestiynau ymchwil.

	○ Sut y gallent ddylanwadu ar eich cynllun astudio.
17.11.26 [Teams] 16:30-17.30	Cyflwyniadau adolygu llenyddiaeth • Cyflwyniad o'r dasg 'Ymchwilio i'r Llenyddiaeth' ○ Paratowch drosolwg 5-10 munud o'ch canfyddiadau, gan gynnwys eich ffocws ymchwil, llenyddiaeth allweddol, themâu sy'n dod i'r amlwg, bylchau a'r camau nesaf. • Beirniadaeth gan gymheiriaid ac adborth • Gwersi a ddysgwyd a'r camau nesaf
Wythnos yn cychwyn 23.11.26 [Tiwtorialau]	Gwnewch apwyntiad gyda'ch tiwtor i drafod eich gwaith cyn cyflwyno Elfen Asesu 1
05.12.26 [Ar y campws] 09:30-15:30 IQ305:	Cyflwyno asesiadau • Cyflwyniadau myfyrwyr ar gyfer Elfen Asesu 1 Symud tuag at yr adolygiad llenyddiaeth beirniadol • Meddwl ymlaen tuag at Elfen Asesu 2
08.12.26 [Teams] 16:30-17.30	Gweithdy elfen asesu 2 • Ymateb i adborth cyflwyniadau • Strwythuro'r adolygiad llenyddiaeth llawn • Problemau cyffredin • Cynllunio gweithredu ar gyfer cyflwyno ym mis Ionawr
Wythnos yn cychwyn 04.01.27 [Tiwtorialau]	Gwnewch apwyntiad gyda'ch tiwtor i drafod eich gwaith cyn cyflwyno Elfen Asesu 2

Asesiadau

Gwnewch yn siŵr eich bod yn adolygu'r ffurflenni GA36 ar gyfer pob aseiniad ar Moodle, ar y cyd â'r isod.

Elfen Asesu 1 - Cyflwyniad (20%)

15 munud (gyda 5 munud arall ar gyfer cwestiynau ychwanegol)

Dyddiad cyflwyno: 05.12.26

Dyddiad adborth: 08.01.27

Tasg

Rhowch gyflwyniad byr (5 munud). Dewiswch fater mewn addysg yr hoffech ei archwilio. Cyfiawnhewch pam mae'r mater yn bwysig i chi fel ymarferydd addysgol a/neu'r gymuned addysgol, beth rydych chi'n ceisio ei ddarganfod a nodwch y bwlch yn y llenyddiaeth y bydd eich ymchwil yn ceisio ei lenwi, gan wneud achos dros eich cwestiynau ymchwil penodol a'u hamlinellu. Yna amlinellwch natur y darlenniad allweddol y byddwch yn ei drafod yn y prif adolygiad llenyddiaeth (dadleuon/syniadau/cysyniadau/fframweithiau damcaniaethol addysgol yn y maes).

Canolbwyntiwch ar ran o'ch adolygiad llenyddiaeth terfynol (10 munud). Dewiswch un (neu ddwy) adran o'ch adolygiad llenyddiaeth (e.e. is-adran). Rhowch deitl ar gyfer yr adran(nau) a dadansoddiad beirniadol o'r llenyddiaeth gefndir, gan gysylltu hyn yn glir â'ch prosiect a'ch cwestiwn/cwestiynau ymchwil penodol. Efallai yr hoffech dynnu sylw'n feirniadol at sail gysyniadol eich prosiect ymchwil; efallai yr hoffech hefyd roi sylw i ddiffiniadau neu ddadleuon allweddol yn y llenyddiaeth ar gyfer yr adran a ddewiswyd. Gorffennwch gyda chrynodeb byr a sleid yn cynnwys rhestr gyfeiriadau. Trwy gydol y gwaith, cofiwch gyfeirnod (gan ddefnyddio dull Harvard) a chyfeirio at y llenyddiaeth gefndir wrth i chi fynd ymlaen, yn ogystal â rhoi rhestr gyfeiriadau ar y diwedd.

Elfen Asesu 2 – Aseiniad Ysgrifenedig (80%)

6500 o eiriau

Dyddiad cyflwyno: 18.01.27 (23:59 trwy Turnitin)

Dyddiad adborth: 22.02.27 (15:00)

Tasg

Ysgrifennwch adolygiad llenyddiaeth beirniadol sy'n dadansoddi ac yn gwerthuso'n feirniadol y llenyddiaeth sydd ar gael/llenyddiaeth allweddol yn eich maes pwnc dewisol.

Trefnwch y gwaith yn systematig gan ddefnyddio teitlau ac is-deitlau i dywys y darlennydd a chyfeirnod i'n systematig, gan ddefnyddio Harvard i sicrhau uniondeb academiaidd. Syntheseiddiwch yr honiadau a wnaed gan wahanol awduron a chyflwyno eich adolygiad llenyddiaeth mewn ffordd drefnus i adeiladu eich dadleuon ac i ddangos meistrolaeth ar y pwnc. Dechreuwch trwy esbonio'n fyr pam mae'r maes hwn o ddiddordeb i chi, eich cyd-destun, a natur y bwlch yn y llenyddiaeth y bydd eich ymchwil yn ei lenwi. Dylai eich prif ddadansoddiad beirniadol o'r llenyddiaeth gefndir ddarparu sylfaen dystiolaeth a thrafodaeth feirniadol o'r cysyniad(au) damcaniaethol sy'n sail i'ch ymchwil. Bydd eich adolygiad llenyddiaeth beirniadol yn dadansoddi'r hyn a honnir yn y llenyddiaeth a pherthnasedd hynny i'ch cwestiynau ymchwil. Bydd hefyd yn dadansoddi'n feirniadol unrhyw ddadleuon yn y llenyddiaeth ac yn nodi themâu yn yr honiadau o'r llenyddiaeth gefndir, gan ddod i gasgliadau ar gyfer eich cwestiynau prosiect/ymchwil.

Darllen a Argymhellir

Cod y Modwl	ECDE7016C	
Teitl y Modwl	Ysgrifennu Adolygiad Llenyddiaeth Beirniadol mewn Addysg	
Categori	Eitemau'r Rhestr Ddarllen	Electronig*
Hanfodol	Top Tips on Writing a Literature Review for Your Education Research Project (Mike Lambert (DOC) Top Tips on Writing a Literature Review for Your Education Research Project)	☒
Hanfodol	Winchester, C.L. and Salji, M., 2016. Writing a literature review. <i>Journal of Clinical Urology</i> , 9(5), pp.308-312.	☐
Hanfodol	Wallace, M. and Wray, A., 2021. <i>Critical reading and writing for postgraduates</i> . Sage Publications Limited.	☐
Hanfodol	Oliver, P., 2012. <i>Succeeding with your literature review a handbook for students</i> , Berkshire, England: McGraw-Hill : Open University Press.	☐
Pellach	Bydd darllen pellach yn benodol i'r pwnc ymchwil a bydd yn dibynnu ar ffocws astudio myfyrwyr	☐